Atodiad 1

# Datganiad Cwyn Ffurfiol



Bwriedir i'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan unrhyw weithiwr yn yr ysgol sy'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol am ei reolwr/rheolwr neu unigolyn allanol, ymddygiad cydweithiwr neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'r gweithle.

Cyn defnyddio'r ffurflen hon, dylai gweithwyr wybod mai ar gyfer amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd cwynion ffurfiol yn cael eu derbyn heb gymryd camau i ddatrys y broblem yn anffurfiol yn y lle cyntaf.

Pan fo'r gweithiwr yn gofyn am ymdrin â'r gŵyn yn anffurfiol, bydd y Pennaeth yn trafod y mater gyda'r gweithiwr gan geisio ei ddatrys heb droi at y Polisi Cwyno ffurfiol.

Pan fo'r gweithiwr yn gofyn am ymdrin â'r gŵyn yn ffurfiol, dylid cwblhau'r ffurflen hon a bydd y weithdrefn gwyno ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith.

Dylid bob amser lenwi'r ffurflen hon a'i rhoi i aelod perthnasol o staff (Pennaeth/Rheolwr Penodedig neu Gadeirydd y Llywodraethwyr) mewn amlen sydd â'r gair "Cyfrinachol" arni neu ei hanfon fel atodiad e-bost gyda "Cyfrinachol" fel testun.

| | |
|---|---|
| Enw'r gweithiwr: | |
| Teitl swydd y gweithiwr: | |
| Ysgol y gweithiwr: | |
| Dyddiad: | |
| Ynglŷn â phwy/beth mae'r gŵyn yn ymwneud ag o/hi? | |

## Crynodeb o'r gŵyn

Nodwch fanylion eich cwyn (gan fod mor fanwl â phosib', yn enwedig â dyddiadau, amser, lleoliadau a'r rhai a oedd ynghlwm). Atodwch ddalennau ychwanegol os bydd angen.

## Unigolion a oedd ynghlwm â'r digwyddiad/gŵyn honedig

Nodwch enwau a manylion cyswllt unrhyw rai a oedd ynghlwm â'ch cwyn, gan gynnwys llygad-dystion, os gwelwch yn dda.

## Camau anffurfiol a gymerwyd eisoes

Nodwch fanylion y camau a gymerwyd i ddatrys y mater yn anffurfiol a'r rheswm pam eich bod yn anfodlon â'r canlyniad anffurfiol (os yw'n briodol).

## Canlyniad y dymunir ei gael

Nodwch beth rydych yn ceisio ei gael fel canlyniad i'ch cwyn a sut a pham rydych yn credu y byddai hyn yn datrys y mater.

Datganiad - Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau uchod yn wir hyd y gwn ac y credwn i. Rwy'n deall y gallai gwneud datganiadau ffug, maleisus neu anwir gael ei ystyried gan yr ysgol fel camymddwyn difrifol ac, os ystyrir bod y g yn yn un faleisus, bydd ymchwiliad i'r mater o dan y Polisi Disgyblu.

| | |
|---|---|
| Ffurflen wedi'i chwblhau gan: | |
| Llofnod: | |
| I'w gwblhau gan yr ysgol | |
| Dyddiad derbyn y ffurflen: | |
| Dyddiad cydnabod: | |
| Enw'r sawl a'i derbyniodd a'u rôl: | |
| Llofnod: | |